



Hwb Iechyd
a Chynaliadwyedd
Health and
Sustainability Hub



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Adnoddau ar gyfer Iechyd Cynaliadwy

Helpu sefydliadau ac unigolion i ystyried yr amgylchedd naturiol
ac iechyd y blaned a phobl ym mhopeth a wnânt.

Datblygwyd gan yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd



Gyda'n gilydd gallwn sicrhau mai **'Ni yw'r Newid'** ar gyfer planed fwy cynaliadwy!



Adnoddau ar gyfer Iechyd Cynaliadwy...

...i helpu sefydliadau ac unigolion i ystyried yr amgylchedd naturiol ac iechyd y blaned a phobl ym mhopeth a wnânt.

Cafodd yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd ei sefydlu yn 2016 i gefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ers hynny, mae'r Hwb wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau am ddim i esbonio datblygu cynaliadwy. Yng Nghymru, bydd yr adnoddau yn helpu pob sefydliad ac unigolyn i weithio i roi'r nodau Llesiant a'r pum ffordd o weithio ar waith, yn ogystal â Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Mae'r Hwb hefyd yn darparu cymorth i bartneriaid a rhanddeiliaid wrth weithredu'r Ddeddf, hysbysu a chefnogi datblygiad polisiau cynaliadwy a gwaith traws-sectoraidd er mwyn creu'r nifer fwyaf o fanteision iechyd i'r boblogaeth.

Mae'r blaned mewn trybini; mae ein cartref a'n system cynnal bywyd yn cael eu niweidio gan weithgareddau pobl. Mae'r newid yn yr hinsawdd, difodiant rhywogaethau, llygredd plastig yn ffeithiau na allwn eu hanwybyddu. Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn achosi sychder eithafol, tanau, glawiad uchel, llifogydd a stormydd o amgylch y byd. Cyhoeddodd y Swyddfa Dywydd [Ry Budd Gwres Eithafol](#) Oren am y tro cyntaf ar 19 Gorffennaf 2021.

Mae'r cyhoeddiadau a'r adnoddau a gynhyrchwyd gan yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd yn edrych ar y cysylltiadau annatod rhwng Iechyd y blaned ac Iechyd pobl. Mae'r adnoddau, e-friffiau, adroddiadau a phhecynnau cymorth yn dod ag ymchwil, syniadau, awgrymiadau a chamau gweithredu ymarferol ar bob lefel ynghyd, o lefel unigolion i lefel polisi cenedlaethol a rhyngwladol. Mae yna lawer y gallwn ni ei wneud. Mae angen i ni ddechrau arni ar unwaith.

Drwy gydweithio a gweithio'n wahanol, a chreu partneriaethau newydd, gallwn ganfod ffyrdd newydd. Cydweithio yw'r sgil dynol pwysicaf – gadewch i ni weithio gyda'n gilydd....

Rydym yn gobeithio bod adnodd ar gael yn yr e-gatalog hwn a fydd yn eich helpu yn eich gwaith. Mae rhai o'r adnoddau yn gyflwyniadau cyflym; mae rhai yn becynnau cymorth (neu weithdai) i dimau eu defnyddio; ac mae rhai yn adroddiadau. Gall unigolion ddarllen pob un o'r rhain a gall timau neu sefydliadau cyfan eu defnyddio. Rydym yn eich annog i archwilio'r holl adnoddau sydd ar gael, fodd bynnag, os bydd angen rhywfaint o help arnoch i wybod lle i ddechrau, edrychwch ar Atodiad 1.

Mae croeso i chi ei rannu gyda sefydliadau a rhwydweithiau eraill, a chysylltu â'r [Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd](#) os oes gennych unrhyw adborth neu gwestiynau.

Gyda'n gilydd gallwn sicrhau mai 'Ni yw'r Newid' ar gyfer planed fwy cynaliadwy!



Cynnwys:

Teitl:	Rhif y Dudalen
Ni yw'r Newid – Camau Cynaliadwy tuag at nodau llesiant Cymru (e-ganllaw)	4
Ni yw'r Newid – Helpu Natur i Ffynnu (e-ganllaw)	5
Ni yw'r Newid – Treftadaeth Iach (e-ganllaw)	6
Ni yw'r Newid – Creu Gweithleoedd Cynhwysol (e-ganllaw)	7
Ni yw'r Newid – Gweithio Gartref a Gweithio'n Ystwyth mewn modd Cynaliadwy (e-ganllaw)	8
Ni yw'r Newid – Mesurau i Leihau ein Gwastraff (e-ganllaw)	9
Ni yw'r Newid – Cynaliadwyedd ar yr Agenda (e-ganllaw)	10
Ni yw'r Newid – Cerddwn Ymlaen (e-ganllaw)	11
Ni yw'r Newid – Her Nodau Llesiant (Pecyn cymorth)	12
Ni yw'r Newid – Caffael nad yw'n costio'r ddaear (e-ganllaw)	13
Lleihau Allyriadau Carbon (Ffeithlun)	14
Deall effaith COVID-19 ar Allyriadau Iechyd Cyhoeddus Cymru (Ffeithlun)	15
Newid Cyfeiriad i sicrhau Planed Gynaliadwy: Gweithredu Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig: Pecyn cymorth ar gyfer sefydliadau byd-eang (Pecyn cymorth)	16
E-friffiau Chwarterol Cyfleoedd Gwyrdd (e-ganllaw)	17
Gwelliannau Cynaliadwyedd i Dimau (SIFT): Canllaw sut i (Pecyn cymorth)	18
Gwelliannau Cynaliadwyedd i Dimau (SIFT): Gweithdy Amgylchedd Iach (Pecyn cymorth)	19
Gweithredu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: Gwersi o Adolygiad Llenyddiaeth ar Weithredu'r Pum Ffordd o Weithio (Adroddiad)	20
Progressing the Sustainable Development Goals through Health in All Policies: Case studies from around the world (Adroddiad)	21
Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol (Adroddiad)	22
Sustainable development in Wales and other regions in Europe – achieving health and equity for present and future generations (Adroddiad)	23
Economiâu Cylchol ac Iechyd a Llesiant Cynaliadwy: Effaith iechyd y cyhoedd cyrff cyhoeddus yn aiffocysu ar leihau ac ailddefnyddio gwastraff yng Nghymru (Adroddiad)	24
Atodiad 1: canllaw i ddefnyddio'r adnoddau – unigolyn, fîm, sefydliad, polisi, byd-eang	25



Ni yw'r Newid – Camau Cynaliadwy tuag at nodau llesiant Cymru

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Mae'r canllaw cyflwyniadol hwn yn esbonio rhai o'r adnoddau 'Ni yw'r Newid' sydd wedi'u cynhyrchu gan yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd. Mae'r rhain yn ceisio annog unigolion a thimau i fabwysiadu ffyrdd o weithio a byw a fydd yn gwella iechyd a llesiant, yn lleihau allyriadau a gwastraff, yn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac yn gwella ein bywydau nawr, a bywydau cenedlaethau yn y dyfodol. Gall unrhyw sefydliad eu defnyddio i ddatblygu eu hadnoddau eu hunain neu ganfod syniadau er mwyn gweithredu. Gall rhannu profiadau, gweithio mewn ffyrdd gwahanol a chydweithio ar draws timau a sefydliadau greu canlyniadau gwell fyth.

Cynnwys yr adnodd:

Disgrifiad defnyddiol o ddeddfwriaeth Cymru, gan gynnwys y nodau llesiant, y camau cynaliadwy, y pum ffordd o weithio. Mae hefyd yn cynnwys graffeg y gallwch ei ddefnyddio a rhai syniadau gwych y gallech roi cynnig arnynt.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae'r adnodd hwn yn darparu cyflwyniad a throsolwg o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrrff cyhoeddus yng Nghymru sicrhau eu bod yn cyfrannu at amgylchedd naturiol iach ym mhopeth a wnânt.



Ni yw'r Newid – Helpu Natur i Ffynnu

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Cymerwch gip ar yr adnodd hwn i gael camau syml a syniadau gwych i helpu rhywogaethau eraill a'u cynefinoedd. Gallai rhai ohonynt helpu eich sefydliad i gydymffurfio â'i ddyletswyddau mewn cyfreithiau cenedlaethol a rhyngwladol a/neu i fod yn esiampl wych i eraill ei dilyn.

Cynnwys yr adnodd:

Mae awgrymiadau yn ein hadnodd yn cynnwys gwneud lle i natur yn eich gardd neu focs ffenestr yn y swyddfa, sefydlu clwb garddio, plannu coed, defnyddio llai o ynni, trefnu cyfarfod cerdded.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae'r adnodd hwn yn cyfrannu'n benodol at y nodau Cymru Gydnerth a Chymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang.

Mae hefyd yn cyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, sef Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd, Bywyd o Dan y Dŵr a Bywyd ar y Tir.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus 'gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthed ecosystemau'.

Mae Cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn ei gwneud yn ofynnol i Gymru leihau allyriadau carbon a dod yn garbon niwtral erbyn 2050 ac yn anelu at gael sector cyhoeddus ddi-garbon erbyn 2030 a fydd yn fuddiol iawn i fioamrywiaeth yn ogystal ag iechyd dynol.



Ni yw'r Newid – Treftadaeth Iach

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Mae'n esbonio bod yn rhaid i bob un ohonom weithredu a bod yna bethau y gallwn eu gwneud fel unigolion, grwpiau a sefydliadau a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n cymuned, i Gymru ac i'n planed werthfawr. Drwy ystyried a dysgu o'n hanes a'n diwylliant, gallwn gynnal, neu ailgyflwyno'r hyn sy'n dda ac edrych i'r dyfodol hefyd a gwneud yn well.

Cynnwys yr adnodd:

Mae'n cynnwys syniadau ac awgrymiadau gan gynnwys sesiwn cyfnewid sgiliau, neu gyfarfod fîm i gael gwybod mwy am elfen o ddiwylliant neu greadigrwydd ar draws Cymru. Gallwch drefnu taith neu weithgarwch ar droed neu ar drafnidiaeth gyhoeddus, felly byddwch yn lleihau eich allyriadau carbon hefyd.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae'r adnodd yn cyfrannu at y nodau Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu, Cymru sy'n fwy Cyfartal a Chymru Iachach.

Byddwch hefyd yn cyflawni rhai o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, yn benodol Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy, Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf, Gweithio mewn Partneriaeth i Gyflawni'r Nodau, a Llai o Anghydraddoldeb.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Bydd annog yr iaith Gymraeg yn y gweithle yn cefnogi Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol.

Bydd annog cydraddoldeb yn y gweithle yn cefnogi Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru / Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n gosod gofynion ar sefydliadau.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cynnwys nifer o ofynion i bob corff cyhoeddus weithio i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau a gweithio i leihau allyriadau neu lygredd. Mae gan Gymru lefel uchel iawn o [allyriadau](#) o ddiwydiant, o gymharu â gweddill y DU. Datblygiad diwydiannol Cymru yn y gorffennol sy'n gyfrifol am hyn. Mae deall hanes a threftadaeth yr ardal a beth sy'n dda ac yn wael am hyn yn bwysig er mwyn helpu i greu newid.



Ni yw'r Newid – Creu Gweithleoedd Cynhwysol

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Mae'r adnodd yn esbonio sut y gall cydweithio a chefnogi ein gilydd yn ein gweithle helpu i nodi ffyrdd newydd effeithlon ac effeithiol o weithio. Drwy wrando a dysgu oddi wrth ein gilydd gallwn addasu a chydweithredu.

Mae'r adnodd yn ein herio i feddwl am sut y gallai ein diwylliant gwaith effeithio ar eraill, sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl a lleihau anghydraddoldeb. Mae staff sy'n teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu swyddi yn fwy tebygol o ddweud eu dweud a mynegi eu barn a'u syniadau, eu gwybodaeth a'u diddordebau – mae syniadau ar ffyrdd newydd o weithio yn fwy tebygol o lifo.

Cynnwys yr adnodd:

Mae yna rai syniadau i helpu staff i ddeall anghenion pobl eraill, drwy ddigwyddiadau anffurfiol i ddod i adnabod cydweithwyr, gwirfoddoli, defnyddio adnoddau a chaffael i leihau ein heffaith ar y byd, neu gysylltu â sefydliadau eraill a dysgu ganddynt. Mae yna rai astudiaethau achos gwych hefyd gan grwpiau gweithredol sy'n gweithio ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae'n cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gyda ffocws penodol ar greu Cymru sy'n Fwy Cyfartal.

Byddwch hefyd yn cyfrannu at nifer o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig gan gynnwys Iechyd a Llesiant Da, Gwaith Teilwng a Thwf Economaidd a Chydraddoldeb Rhywiol.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae'r adnodd hwn yn cysylltu â Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru a mathau eraill o gymorth i staff.

Gallai rhai ffyrdd newydd o weithio, teithio a chwrdd hyd yn oed helpu i gyflawni cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel.



Ni yw'r Newid – Gweithio Gartref a Gweithio'n Ystwyth mewn modd Cynaliadwy

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Mae'n dangos i ni sut y gallwn i gyd weithredu yn fwy cynaliadwy drwy newid y ffyrdd rydym yn gweithio. Mae llawer ohonom wedi bod yn gweithio gartref am yr wythnos gyfan neu ran o'r wythnos ers blynyddoedd ac mae mwy ohonom wedi gwneud hynny yn ystod y pandemig. Mae'r adnodd hwn yn cynnwys syniadau gwych i gefnogi ymddygiad cynaliadwy wrth weithio gartref, system o weithio wrth sawl gweithfan neu weithio ystwyth. Dangosodd astudiaeth yn 2014 y gallai gweithio gartref sicrhau arbedion blynyddol o [3 miliwn a mwy o dunelli o garbon y flwyddyn](#) ar draws y wlad ond mae angen i ni ystyried yn awr faint o ynni y mae staff yn ei ddefnyddio wrth weithio gartref. Gall gweithio gartref a gweithio'n ystwyth helpu i leihau allyriadau trafniadaeth a helpu i wella ansawdd aer yr un pryd.

Cynnwys yr adnodd:

Syniadau gwych ar gyfer sicrhau bod gweithio gartref yn well i'ch iechyd a'ch llesiant, gan gynnwys rhai astudiaethau achos ysbrydoledig. Rydym hefyd wedi casglu rhywfaint o wybodaeth i'ch helpu i wneud eich cartref yn lle mwy gwyrdd i fyw a gweithio ynddo, nid drwy ychwanegu planhigion yn unig, ond drwy newid eich bylbiau golau, newid darparwr ynni a defnyddio llai o bŵer, trwsio, aildefnyddio ac ailgylchu neu siopa yn agosach at adref.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae'r adnodd hwn yn cyfrannu'n benodol at y nodau Cymru Iachach a Chymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.

Byddwch hefyd yn cyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, yn benodol Iechyd a Llesiant Da a Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno'r gofynion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffyrdd cynaliadwy yn ogystal â ffyrdd newydd o weithio i gyflawni hyn.

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn pennu'r targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd.

Mae Strategaeth Drafniadaeth Llywodraeth Cymru - Llwybr Newydd – yn annog pobl i ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio.



Ni yw'r Newid – Mesurau i Leihau ein Gwastraff

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Eich annog i edrych ar faint o bethau rydych yn eu gwaredu a chanfod ffyrdd o leihau, aildefnyddio ac ailgylchu. Os byddwn ni i gyd yn gwneud hyn bydd yn gwneud gwahaniaeth aruthrol. Rydym i gyd wedi gweld adroddiadau sy'n dangos pentyrrau o wastraff plastig neu blastig yn y [cefnforoedd](#). Y broblem yw bod gwyddonwyr yn gwybod yn awr y bydd plastig yn torri'n ddarnau llai ond na fydd [byth yn diflannu'n llwyr](#). Mae hyn, ynghyd â mathau eraill o wastraff, yn achosi problemau lu yn lleol ac ar draws y byd. Gall pob un ohonom helpu i atal hyn.

Cynnwys yr adnodd:

Darllenwch ein hadnodd i gael syniadau er mwyn gwneud gwahaniaeth i'r defnydd o ddeunyddiau ysgrifennu yn y swyddfa, y defnydd o drydan, gwastraff bwyd, prynu nwyddau a gwasanaethau. Adref, gallwch brynu ffrwythau a llysiau ffres o siopau a marchnadoedd lleol heb ddeunydd pecynnu plastig, a gwneud a thrwsio pethau. Gallwch chi a'ch cydweithwyr ddod at eich gilydd i rannu syniadau a'u rhoi ar waith. Mae yna enghreifftiau ysbrydoledig hefyd.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae'r adnodd yn cyfrannu at y nodau Cymru Gydnerth, Cymru Iachach a Chymru Lewyrchus.

Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig sy'n cael eu cwmpasu yw: Iechyd a Llesiant Da, Dŵr Glân a Glanweithdra, Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol, Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd, Bywyd o Dan y Dŵr a Bywyd ar y Tir.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus weithio i gyflawni dulliau cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol.

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus leihau allyriadau carbon a dod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae gwaredu a llosgi gwastraff yn gyfrifol am lawer o allyriadau.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru 'Mwy Nag Ailgylchlu - Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti' yn ceisio sicrhau nad yw unrhyw beth yn cael ei waredu. Mewn economi gylchol mae cynhyrchion yn cael eu gwneud i bara, gellir eu hatgyweirio neu yn y pen draw gellir eu datgymalu ac aildefnyddio'r cydrannau.

Ni yw'r Newid – Cynaliadwyedd ar yr Agenda

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Ei nod yw darparu syniadau, cyngor ac offer defnyddiol i helpu i gyrraedd targedau cynaliadwyedd wrth drefnu cyfarfodydd neu ddiwyddiadau.

Gall cyfarfodydd a chynadleddau gael effeithiau negyddol sylweddol. Dangosodd asesiad Ôl-troed Carbon GIG Cymru mai trafndiaeth yw un o'r sectorau sy'n creu'r mwyaf o lygredd yng Nghymru, sy'n cyfrannu 17% at yr ôl-troed carbon. Yn waeth na hynny, mae [caffael yn cyfrannu cyfran enfawr o 62%](#) am ei fod yn cynnwys cyflenwi a dosbarthu nwyddau. Gallai eich fîm fod yn esiampl wych drwy rannu eich ymdrechion a'ch storïau llwyddiannus.

Cynnwys yr adnodd:

Mae'r adnodd yn darparu cyngor ar gaffael nwyddau a gwasanaethau sy'n fwy gwyrdd a glân, ac a fydd yn sicrhau bod cyfarfodydd a digwyddiadau yn fwy cynaliadwy ac iach i bawb. Mae rhestr wirio ddefnyddiol i'ch galluogi i feddwl am ffyrdd i helpu, er enghraifft drwy gyfarfod yn rhywle sy'n eich galluogi i gerdded yno neu fynd ar drafndiaeth gyhoeddus. Gallwch gyfrifo ôl-troed carbon y digwyddiad fel rhan o'r broses o fesur gwelliannau a rhannu'r rhain.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae'r adnodd yn cyfrannu at y nodau Cymru Iachach, Cymru Lewyrchus a Chymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.

Mae hefyd yn cyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig: Dinasoedd a Chymunedau, Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol a Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus ddatblygu ffyrdd newydd o weithio i sicrhau cydnherthedd ecosystemau a gwella bioamrywiaeth ym mhopeth a wnânt.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'r wlad roi'r gorau i waredu pethau a dechrau [aildefnyddio ac adfer](#) cynhyrchion a deunyddiau pan fo'n bosibl, fel yr esbonnir yn 'Mwy Nag Ailgylchu – strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti'.

Mae angen i gyrrff cyhoeddus weithio hefyd tuag at gynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel

Ni yw'r Newid – Cerddwn Ymlaen

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Mae'r adnodd yn cynnwys camau syml i helpu i leihau allyriadau trafndiaeth a helpu i wella ein hiechyd a'n llesiant. Mae teithio ar droed, ar feic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau allyriadau yn ogystal â'n harbed rhag y straen sy'n gysylltiedig o ffyrdd a meysydd parcio prysur.

Cyhoeddwyd yr adnodd hwn cyn i'n ffyrdd o weithio newid yn sylweddol oherwydd cyfyngiadau symud y Coronafeirws. Erbyn hyn mae rhai ohonom wedi hen arfer gweithio gartref a theithio llai o lawer.

Cynnwys yr adnodd:

Mae'r adnodd yn cynnig syniadau ac awgrymiadau ar ffyrdd y gall sefydliadau, timau ac unigolion wneud newidiadau a fydd yn helpu i leihau allyriadau trafndiaeth a gofalu am y blaned drwy deithio ar droed, beicio, defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, defnyddio llai ar geir neu weithio gartref.

Darllenwch yr adnoddau i gael rhai syniadau gwych i gynnwys ymarfer corff yn eich taith ddyddiol i'r gwaith, neu ymarfer corff os ydych yn gweithio gartref. Ceir dolenni i wybodaeth am sut i ddechrau arni.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae'r adnodd yn cyfrannu at y nodau Cymru Iachach, Cymru Lewyrchus a Chymru Gydnerth.

Mae hefyd yn cyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig: Iechyd a Llesiant Da a Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru fod yn ddi-garbon erbyn 2030.

Mae'r adnodd hwn hefyd yn cysylltu â Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru 2021 – Llwybr Newydd, sy'n annog pobl i gerdded, beicio neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

Ni yw'r Newid – Her Nodau Llesiant

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Mae'r adnodd yn eich ysbrydoli i weithredu drwy fynd i'r afael ag un o'r chwe her i weld sut y gallwch newid eich ymddygiad mewn saith niwrnod.

Rhowch gynnig ar yr heriau hyn a byddwch ar y trywydd cywir i feddwl a gweithredu mewn ffordd fwy cynaliadwy, lleihau eich effaith ar yr amgylchedd a dysgu mwy. Rhannwch eich profiadau a'ch syniadau gyda thimau eraill, rheolwyr a llunwyr polisiau.

Cynnwys yr adnodd:

Mae yna chwe her wahanol sy'n ceisio ein hysbrydoli i weithredu, i roi cynnig ar rywbeth gwahanol. Gallwch gymryd rhan ar eich pen eich hun neu gyda'ch fîm neu reolwyr mewn her saith niwrnod. Neu gallwch ymrwymo i her tymor hwy i ofalu am fywyd gwyllt, dod yn ddefnyddiwr moesegol neu ymrwymo i ffasiwn araf.

Nod y canllawiau hyn yw eich helpu i ddechrau arni, a gwneud i chi feddwl. Mae yna ddwy astudiaeth achos wych hefyd gan bobl sydd eisoes yn gwneud rhai newidiadau cadarnhaol i'r ffordd y maent yn byw eu bywydau.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae'r holl Heriau yn y ddogfen hon yn helpu i gyflawni pob un o'r saith nod llesiant a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r heriau hyn hefyd yn golygu y byddwch yn cyflawni llawer o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys Iechyd a Llesiant Da, Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol a Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus 'gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau' ym mhopeth a wnânt.

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn pennu targedau i gyrrff cyhoeddus leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero erbyn 2030.

Ni yw'r Newid – Caffael nad yw'n costio'r ddaear

Beth ydyw a sut y gall helpu:

Mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario tua £7 biliwn ar gaffael. Gall yr hyn rydym yn ei brynu ac o ble rydym yn ei brynu gael effaith fawr ar gynyddu neu leihau ein hól troed carbon.

Ôl troed carbon GIG Cymru yn 2018/19 oedd 1 miliwn tonnell o CO₂e a daeth 62% o'r allyriadau hynny o gaffael. Mae caffael cynaliadwy yn ein helpu i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac mae'n cyfrannu at well iechyd a llesiant yn lleol ac yn fyd-eang.

Beth sydd wedi'i gynnwys yn yr adnodd:

Gwybodaeth, enghreifftiau, ffynonellau cyngor a syniadau i'ch helpu i ystyried y broses gaffael. Oes angen rhywbeth o gwbl? Allwch chi fenthyg neu logi, prynu yn ail law neu brynu rhywbeth sydd wedi'i adnewyddu? Os na, a yw'n cael ei wneud neu ei werthu'n lleol, o ansawdd da, wedi'i wneud i bara, hawdd ei atgyweirio? Allwch chi rannu offer?

Mae hefyd yn cynnwys rhai astudiaethau achos sy'n ysbrydoli. Mae llawer o bethau y gallwn ni i gyd eu gwneud, er enghraifft, gofyn i gyflenwyr am nwyddau sydd wedi'u hadnewyddu, nwyddau y gellir eu hatgyweirio, rhai y mae modd mynd â nhw yn ôl a'u hailgylchu pan na fydd modd eu defnyddio mwyach.

Sut mae'r adnodd yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig:

Mae'r syniadau a'r argymhellion yn y canllaw hwn yn ymdrin â'r holl Nodau Llesiant a holl Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Nid yn unig ydy caffael cynaliadwy yn gyfrifoldeb, mae hefyd yn gyfle i greu newid a gwerth cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

Sut mae'r adnodd yn cysylltu â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae caffael cynaliadwy yn ein galluogi i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a bod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang, gan gefnogi ein hymrwymadau i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (SPPA, 2023).

Mae caffael cynaliadwy yn cefnogi strategaeth 'Mwy nag Ailgylchu' Llywodraeth Cymru i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti, i barhau i ddefnyddio adnoddau a lleihau neu osgoi gwastraff.

Mae'r canllaw yn cefnogi'r egwyddorion a nodir yn Natganiad Polisi Caffael Cymru, a gyhoeddwyd yn 2021.

Lleihau Allyriadau Carbon

Beth ydyw a sut y gall helpu:

Mae'r ffeithlun hwn yn esbonio pam mae newid hinsawdd yn fygythiad sylweddol i iechyd. Mae'n cynnwys ffeithiau am newid hinsawdd ac mae'n awgrymu camau y gallwn ni i gyd eu cymryd i leihau ein heffaith er mwyn helpu i ddiogelu iechyd dynol yn ogystal ag iechyd y blaned.

Mae mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd yn flaenoriaeth strategol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac rydym wedi ymrwymo i hysbysu, galluogi a rhoi camau ar waith ar y newid hinsawdd ledled Cymru.

Beth sydd wedi'i gynnwys yn yr adnodd:

Gwybodaeth am newid hinsawdd a'r effeithiau ar yr amgylchedd a'n hiechyd gan gynnwys canran yr allyriadau byd-eang y mae gofal iechyd yn gyfrifol amdanynt a'r amcangyfrif o farwolaethau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

Mae hefyd yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar sut y gallwch leihau eich allyriadau, yn y gwaith a gartref, gan ystyried ynni, teithio, gwastraff a defnydd, bwyd, cefnogi byd natur ac annog eraill i feddwl am newid hinsawdd.

Sut mae'r adnodd yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig:

Mae'r adnodd hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at Gymru Gydnerth, Cymru Ffyniannus, Cymru Iachach a Chymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.

Mae'r adnodd yn cefnogi amrywiaeth o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig gan gynnwys Gweithredu ar Newid Hinsawdd, Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol, Iechyd a Llesiant Da.

Sut mae'r adnodd yn cysylltu â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, sef Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel a'r Cynllun Strategol Sero Net (2022) yn gosod targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae lleihau ein hallyriadau unigol ac allyriadau timau yn helpu ein sefydliad i gyflawni'r uchelgeisiau a'r targedau a nodwyd.

Mae lleihau ein hallyriadau yn ein galluogi i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a bod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang, gan gefnogi ein hymrwymadau i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Deall effaith COVID-19 ar Allyriadau Iechyd Cyhoeddus Cymru

Beth ydyw a sut y gall helpu:

Mae'r adnodd yn tynnu sylw at brif effeithiau y pandemig COVID-19 a symud i weithio'n fwy ystwyth ar ôl troed carbon Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r pum ffeithlun yn manylu ar effaith allyriadau pedwar maes allweddol, sef allyriadau Caffael, Teithio, Busnes a Gweithio Gartref, i gefnogi ein gwaith ar y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio.

Beth sydd wedi'i gynnwys yn yr adnodd:

Mae pum ffeithlun i gyd, un sy'n tynnu sylw at yr effaith gyffredinol a phedwar sy'n ymdrin â'r meysydd allyriadau allweddol. Maent i gyd yn tynnu sylw at y prif negeseuon, yr argymhellion ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a sut y gall staff unigol helpu.

Dolenni i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig:

Mae'r adnodd yn cyfrannu at Gymru Gydnerth, Cymru Ffyniannus a Chymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.

Mae hefyd yn cefnogi amrywiaeth o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys Gweithredu ar Newid Hinsawdd, Iechyd a Llesiant Da a Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol.

Dolenni i ddeddfwriaeth allweddol arall:

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, sef Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel a'r Cynllun Strategol Sero Net (2022) yn gosod targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae lleihau ein hallyriadau unigol ac allyriadau timau yn helpu ein sefydliad i gyflawni'r uchelgeisiau a'r targedau a nodwyd.

Mae lleihau ein hallyriadau carbon yn ein galluogi i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a bod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang, gan gefnogi ein hymrwymadau i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r adnodd yn cefnogi Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru – Llwybr Newydd, sy'n annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i helpu i leihau allyriadau teithio.

Nod 'Mwy Nag Ailgylchu – ein cynllun i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti' Llywodraeth Cymru yw sicrhau nad oes dim yn cael ei daflu. Mewn economi gylchol, gwneir cynhyrchion i bara, gellir eu hatgyweirio neu yn y pen draw gellir eu datgymalu ac aildefnyddio'r cydrannau.

Mae hyn yn cefnogi'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (SPPA, 2023).

Newid Cyfeiriad i Sicrhau Planed Gynaliadwy: Gweithredu Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig: Pecyn cymorth ar gyfer sefydliadau byd-eang

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Cafodd y pecyn cymorth hwn ei ddylunio i helpu sefydliadau a staff i ymateb i Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Mae'n adnodd defnyddiol i unrhyw sefydliad, fîm neu unigolyn sy'n gweithio i ymgorffori ffyrdd o ddiogelu dyfodol pobl a'r blaned drwy gyflwyno camau gweithredu newydd ac ymddygiad newydd ym mhopeth a wnânt yn y gwaith ac adref. Gyda'n gilydd gallwn gyfrannu at newid byd-eang er gwell.

Cynnwys yr adnodd:

Esboniad o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae yna astudiaethau achos am newid cynaliadwy ar wahanol lefelau, o'r wlad gyfan i sefydliad i unigolyn a llawer rhwng y rhain. Mae yna enghreifftiau o gydweithio amlsector, offer ac adnoddau ymarferol, dolenni i ddogfennau, ymchwil ac adroddiadau a dolenni rhyngweithiol sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol. Ceir hefyd negeseuon allweddol, delweddau a gwaith graffeg y gallwch eu defnyddio.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae'r pecyn cymorth yn esbonio bod cysylltiad agos iawn rhwng saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 â Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Mae'n cynnwys gwybodaeth am gyfres o adnoddau a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni eu rhwymedigaethau.

Datblygwyd y pecyn cymorth i helpu sefydliadau a'u staff i gymryd camau i gyflawni pob un o 17 Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus 'gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau' ym mhopeth a wnânt, ynghyd â chyflwyno ffyrdd newydd o weithio i gyflawni hyn.

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn pennu targedau i gyrff cyhoeddus leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero erbyn 2030.

E-friffiau Cyfleoedd Gwyrdd

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Mae'r e-friffiau yn cynnwys gwybodaeth, ymchwil ac arfer gorau i gefnogi adferiad iach a theg yn dilyn COVID-19. Maent yn cwmpasu themâu amrywiol ac yn nodi cyfleoedd cynaliadwy i gefnogi iechyd y boblogaeth.

Mae llawer o bobl wedi sylweddoli bod y newidiadau aruthrol rydym wedi'u gweld ers 2020 yn gyfle i feddwl am sut y gallwn newid ein ffyrdd a chreu dyfodol mwy disglair, gwyrdd a chynaliadwy i'n planed. Mae'n bryd i ni edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud a newid ein harferion. Bydd yr e-friffiau yn darparu ysbrydoliaeth i sefydliadau ac unigolion.

Cynnwys yr adnodd:

Mae'r e-friffiau Cyfleoedd Gwyrdd wedi'u hysbrydoli gan [argymhellion WHO](#) ar gyfer adferiad mwy gwyrdd. Mae pob e-friff yn edrych ar fater byd-eang mawr ac effaith COVID-19. Mae'r themâu yn cynnwys lleihau gwastraff, dewisiadau teithio cynaliadwy a llesol, gofalu am ein hamgylchedd naturiol, ynni a llygredd aer. Ceir enghreifftiau gwirioneddol o gamau gweithredu ac adnoddau i'ch helpu chi a'ch fîm i feddwl a gwneud newidiadau. Mae'r e-friffiau yn cwmpasu iechyd corfforol a llesiant meddyliol, cyflogaeth, grwpiau agored i niwed, pobl ifanc. Mae gwybodaeth gan sefydliadau partner ym mhob un, sy'n ein hatgoffa o fanteision gweithio gyda phobl eraill i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Maent hefyd yn cynnwys manylion sefydliadau sy'n gallu darparu cymorth ac adnoddau.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae gan bob briff Cyfleoedd Gwyrdd thema wahanol a llawer o ddolenni i ddangos ffyrdd o gyflawni'r saith nod llesiant.

Gallwch gyfrannu at lawer o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig hefyd, drwy gyflawni'r camau gweithredu a awgrymir yn yr e-friffiau.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus ystyried a chyfrannu at dulliau cynaliadwy o reoli adnoddau dynol a chynnal a gwella bioamrywiaeth.

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn pennu targedau i gyrrff cyhoeddus leihau allyriadau i sero erbyn 2030.

Mae pob e-friff yn cynnwys dolenni i wybodaeth am dargedau neu strategaethau cenedlaethol perthnasol Cymru.

Gwelliannau Cynaliadwyedd i Dimau (SIFT): Canllaw sut i

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Mae'r canllawiau hyn yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddeall ac ymgorffori'r pum ffordd o weithio wrth gynllunio a chyflawni gwaith i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y camau yn y gweithdy dwy awr hunangyfeiriedig hwn yn helpu i nodi camau gweithredu i gyfrannu tuag at gyflawni ffyrdd gwell o weithio a byw, sy'n diogelu'r dyfodol i bobl ac i'r blaned.

Gall y pethau y mae angen i ni eu gwneud i gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymddangos yn gymhleth. Bydd yr adnodd hwn yn eich helpu chi a'ch fîm i ddeall y saith nod a'r pum ffordd o weithio, ac mae cyflwyniad da ar gael yng nghanllaw [Yr Hanfodion](#).

Cynnwys yr adnodd:

Yn y gweithdy Gwelliannau Cynaliadwyedd i Dimau bydd holl aelodau'r fîm yn cydweithio i'ch helpu i edrych ar y ffordd rydych yn gweithio a sut mae hynny'n cysylltu â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaethau perthnasol eraill. Mae'n esbonio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i gynnal y cyfarfod gyda'ch fîm a datblygu cynllun gweithredu. Ceir dolenni hefyd i ddeunydd darllen arall. Gallwch helpu timau eraill hefyd, drwy rannu eich syniadau a'ch cyflawniadau.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae'n cefnogi timau i gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac ymgorffori'r pum ffordd o weithio.

Byddwch yn cyfrannu at bob un o 17 Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno gofyniad i reoli adnoddau naturiol mewn ffyrdd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu bod gofyniad i ni i gyd ganfod ffyrdd newydd o weithio er mwyn cyflawni hyn.

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Gwelliannau Cynaliadwyedd i Dimau: Gweithdy Amgylchedd Iach

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Mae'r gweithdy hwn yn ffordd wych o gael eich fîm cyfan i drafod y materion pwysig sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd, aer glân a lleihau allyriadau carbon, colli rhywogaethau a chynefinoedd, llygredd plastig ac iechyd pobl a'r blaned. Bydd yn eich helpu i nodi'r effeithiau cadarnhaol a negyddol y mae'r fîm a phob un ohonom yn eu cael ar yr amgylchedd ac i ddatblygu cynllun gweithredu i wella'r effeithiau cadarnhaol a lleihau neu ddileu'r rhai negyddol, gan ddechrau ar unwaith. Mae yna bethau y gall pob un ohonom eu gwneud. Gall trafodaeth agored gynhyrchu syniadau gwych.

Cynnwys yr adnodd:

Mae'r gweithdy yn canolbwyntio ar dair thema gysylltiedig – Bioamrywiaeth, Datgarboneiddio a Dim gwastraff.

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys cyflwyniad PowerPoint a sript. Mae deunydd darllen cyflwyniadol a dolenni yn ogystal â Chanllaw Hwyluso i bwy bynnag sy'n trefnu'r Gweithdy. Ceir llawer o ddolenni i ddeunydd darllen, fideos ac adnoddau eraill hefyd i'ch helpu chi a'ch fîm i ddechrau gweithredu er mwyn sicrhau dyfodol mwy disglair i bob un ohonom ni, i bob rhywogaeth ac i'r blaned ei hun.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Bydd y ddogfen hon yn eich helpu i weithio tuag at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant.

Byddwch hefyd yn ystyried ac yn gweithio tuag at gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae gan gyrrff cyhoeddus yng Nghymru rwymedigaethau a thargedau cyfreithiol i'w cyflawni yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n pennu gofyniad i ystyried adnoddau naturiol ym mhob ffurf ym mhopeth a wnawn.

Mae'r gweithdy hwn hefyd yn cysylltu â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 drwy eich helpu i gymryd camau i newid eich arferion teithio.

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Gweithredu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: Gwersi o Adolygiad Llenyddiaeth ar Weithredu'r Pum Ffordd o Weithio

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Mae'r adroddiad yn nodi'r agweddau a'r dulliau sydd wedi'u defnyddio'n llwyddiannus yn y sectorau a sefydliadau iechyd neu mewn sectorau a sefydliadau eraill i ymgorffori datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wnânt. Mae'n darparu camau cadarnhaol y gall cynulleidfa eang, gan gynnwys llunwyr polisïau a thimau eu cymryd. Mae'n edrych ar y ffordd y mae llawer o sefydliadau'n gweithio ac mae'n herio dulliau confensiynol o feddwl. Mae gan sefydliadau gynlluniau tymor byr yn aml, ond mae angen iddynt feddwl am y materion pwysig hyn yn y tymor hwy. Drwy feddwl mewn ffordd gyfannol am iechyd y blaned ac iechyd bodau dynol, rydym i gyd yn gweithio i wneud gwahaniaeth a sicrhau dyfodol mwy disglair.

Cynnwys yr adnodd:

Mae'r adroddiad Cryno yn cyflwyno gwybodaeth o gyfnodolion, testunau craidd, newyddion, erthyglau cylchgronau ac ar-lein ar y pum ffordd o weithio. Mae'n cynnwys crynodebau o lawer o enghreifftiau defnyddiol ac yn rhoi argymhellion sy'n seiliedig ar y rhain.

Mae gan bob un o'r pum ffordd o weithio – Atal, Hirdymor, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys – adran ar wahân yn yr adroddiad hwn, gydag enghreifftiau o brosiectau a chamau gweithredu llwyddiannus. Ceir crynodebau a thablau defnyddiol o wybodaeth allweddol a ddysgwyd, a fydd yn ysgogi syniadau, trafodaethau a chamau gweithredu.

Mae yna adroddiad llawn ar gael hefyd y cyfeirir ato yn y cyflwyniad. Gallwch gael syniadau o'r crynodeb byr hwn neu gyfeirio at yr adroddiad llawn i gael gwybodaeth fwy manwl.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru adrodd a darparu tystiolaeth i ddangos y ffyrdd y maent yn cyflawni'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy drwy'r pum ffordd o weithio, er mwyn ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r chwiliad o lenyddiaeth wedi nodi llawer o enghreifftiau sy'n berthnasol i fabwysiadu Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig sydd wedi'u hymgorffori yn y pum ffordd o weithio.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno gofyniad i reoli adnoddau naturiol mewn ffyrdd cynaliadwy.

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Progressing the Sustainable Development Goals through Health in All Policies: Case studies from around the world

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Mae'n cynnwys trafodaeth ac yn rhoi enghreifftiau ymarferol ac ysbrydoliaeth i unrhyw un sy'n ceisio ymgorffori materion byd-eang cymhleth, gan gynnwys cynnal planed iach neu sicrhau iechyd dynol, ym mhob penderfyniad a gwaith cynllunio a wneir ar draws sefydliad neu sectorau. Mae astudiaethau achos o bob rhan o'r byd yn dangos gwahanol dechnegau. Mae'n ddefnyddiol i unrhyw un sy'n ceisio arloesi neu wella iechyd pobl a'r blaned, yn ogystal â'r rhai sy'n arwain newid, neu'n gweithio ar lefel polisi.

Cynnwys yr adnodd:

Cyflwyniad i ddatblygu Iechyd ym Mhob Polisi ac ystyriaeth o'r cysylltiadau rhwng iechyd a'r nodau Datblygu Cynaliadwy.

Mae'r adroddiad yn rhoi enghreifftiau a dulliau o ymgorffori iechyd a datblygu cynaliadwy ar draws pob polisi a maes gwaith drwy weithio ar draws sectorau. Mae'n cynnwys enghreifftiau o wledydd sydd wedi ystyried iechyd ar draws pob maes polisi ers blynyddoedd, i'r rhai sydd wrthi'n mabwysiadu'r ffordd hon o weithio. Mae'r astudiaethau achos yn adlewyrchu'r dulliau amrywiol, ac yn darparu gwybodaeth, cyngor ac esboniadau.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn galw am ddull integredig o lunio polisiau ar draws pob sector, er mwyn mynd i'r afael â heriau heddiw a hyrwyddo dyfodol diogel, iach a chyfartal i bawb ac i'r blaned.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau bod diogelu adnoddau naturiol yn awr ac yn y dyfodol yn ystyriaeth allweddol ym mhob penderfyniad a wneir.

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob unigolyn a thîm gymryd camau gweithredu i leihau eu heffeithiau.

Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Mae'r adnodd hwn yn ceisio ein helpu i gymryd camau, cydweithio a gwneud penderfyniadau sy'n gwella iechyd a llesiant pobl a lleoedd. Mae'n cynnwys gwybodaeth, adnoddau ac awgrymiadau i'n galluogi i feddwl am y ffyrdd mae'r amgylchedd naturiol ac adeiledig yn effeithio arnom i gyd.

Mae'r adnodd hwn yn ddefnyddiol i lawer, yn arbennig felly y rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, cynllunio, dylunio neu ddatblygu amgylcheddau adeiledig, parciau a mannau agored, darparu gofal iechyd, neu hybu llesiant, aer glân a phwysigrwydd mannau trefol a lleoedd gwyllt da.

Cynnwys yr adnodd:

Mae'r adnodd hwn yn disgrifio ac yn esbonio sut y mae mannau gwyrdd, mynediad at fwyd iach, cyfleoedd i fod yn egniol, aer glân, adeiladau sydd wedi'u dylunio'n dda a chyfleusterau lleol cefnogol yn gallu helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Ceir crynodebau o dystiolaeth ac ymchwil. Mae'n cynnwys tablau gwybodaeth sy'n dangos pethau i'w hystyried, er mwyn ysgogi syniadau a gweithredoedd.

Mae yna enghreifftiau sy'n dangos sut y gwnaed gwelliannau drwy ystyried y defnydd o leoedd a mannau. Mae yna restr o adnoddau defnyddiol a chyfeiriadau at ddeunydd darllen pellach.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenedloedd Unedig:

Mae nodiadau wedi'u cynnwys yn yr adnodd hwn drwyddo draw sy'n dangos pa rai o'r nodau llesiant sy'n cael eu cwmpasu ym mhob enghraifft. Mae camau gweithredu a allai helpu i gyflawni'r pum ffordd o weithio wedi'u cynnwys.

Mae Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenedloedd Unedig yn dangos y cysylltiad anwahanadwy rhwng llesiant yr amgylchedd naturiol ac iechyd dynol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u cynnwys yn y pum ffordd o weithio.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried eu heffaith ar fioamrywiaeth ac mae'r Polisi ar Adnoddau Naturiol hefyd yn datgan bod adnoddau naturiol yn hollbwysig i iechyd a llesiant corfforol a meddyliol.

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i Asesu'r Effaith ar Iechyd wrth wneud penderfyniadau strategol, cynllunio neu gynigion eraill sy'n effeithio ar y defnydd o'r amgylchedd lleol.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Rheoliadau Asesu'r Effaith ar Iechyd (Diwygio) 2017 hefyd yn crybwyll y gall yr amgylchedd adeiledig a naturiol hybu iechyd a llesiant.

Sustainable development in Wales and other regions in Europe – achieving health and equity for present and future generations

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Gall yr adroddiad hwn helpu staff mewn sefydliadau lleol a rhanbarthol i weld sut y gallent drawsnewid blaenoriaethau byd-eang yn gamau gweithredu lleol. Mae cysylltiad rhwng iechyd, cydraddoldeb a chynaliadwyedd a dylid eu hystyried ar draws pob polisi ac ym mhob maes gwaith. Mae'n esbonio bod cydweithio ag eraill yn ddefnyddiol, yn fuddiol ac yn sgil hanfodol yn y cyfnod hwn o argyfwng, lle mae angen i ni i gyd weithredu i ddiogelu a hybu iechyd dynol ac iechyd y blaned sy'n ein cynnal.

Cynnwys yr adnodd:

Mae'r adroddiad hwn gan Sefydliad Iechyd y Byd yn cynnwys profiadau a gwybodaeth gwledydd sy'n ceisio ymgorffori ystyriaethau ynghylch dyfodol y blaned ac adnoddau naturiol, iechyd dynol a lleihau llygredd mewn polisiau a gweithredoedd. Mae'n cynnwys enghreifftiau ymarferol. Mae'r negeseuon allweddol yn cynnwys pwysigrwydd allweddol cynnwys sefydliadau ac unigolion lleol a rhanbarthol; mabwysiadu dulliau a phartneriaethau arloesol ar draws sectorau; monitro i ddangos cynnydd ac ar gyfer gwerthuso; a rhannu profiadau a'r hyn y mae eraill wedi'i ddysgu.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gyda phrofiadau ar weithredu o'r sector iechyd.

Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu dulliau ymarferol o hybu cynnwys Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig ym mhob polisi ac ar draws pob lefel o gymdeithas.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus ystyried diogelu a gwella adnoddau naturiol lleol a byd-eang ym mhopeth a wnânt.

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn cynnwys targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Bydd hyn yn cael effaith fuddiol ar iechyd a'r amgylchedd.

Mae'r adnodd hwn hefyd yn cysylltu â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Economiâu Cylchol ac Iechyd a Llesiant Cynaliadwy: Effaith iechyd y cyhoedd cyrff cyhoeddus yn ailffocysu ar leihau ac aildddefnyddio gwastraff yng Nghymru

Beth yw'r adnodd a sut y gall helpu:

Ystyried effeithiau datblygu economi gylchol ar iechyd a llesiant, economi lle nad oes unrhyw wastraff oherwydd bod adnoddau'n cael eu hatgyweirio neu eu haildddefnyddio. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar unrhyw broblemau a manteision i bobl a sefydliadau o ganlyniad i symud i economi gylchol.

Bydd yr adroddiad hwn yn eich helpu i feddwl am broblemau a manteision posibl a allai effeithio ar wahanol sectorau neu bobl yn ystod y cyfnod trawsnewid ac yn yr hirdymor. Mae'n nodi'r camau gweithredu y gall cyrff cyhoeddus, sefydliadau eraill, cymunedau ac unigolion eu gweithredu i sicrhau'r iechyd a'r llesiant gorau mewn cysylltiad â datblygu economi gylchol.

Cynnwys yr adnodd:

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adolygiad o dystiolaeth o ymchwil academaidd, erthyglau newyddion a chyhoeddiadau ac adnoddau ar-lein eraill, yn ogystal â phrofiad amrywiaeth eang o bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a llesiant drwy gydol pandemig y Coronafeirws. Mae hefyd yn nodi unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac adroddiadau. Trafodir manteision hirdymor niferus economi gylchol i bobl ac i'r blaned.

Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:

Mae'r adnodd yn cyfrannu at y nodau Cymru Iachach a Chymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.

Mae hefyd yn cyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, yn benodol Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy, Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol a Llai o Anghydraddoldeb. Byddai economi gylchol yn helpu i gyflawni'r holl nodau oherwydd mae'n seiliedig ar y gwerthfawrogiad ein bod yn byw ar blaned sy'n rhoi bywyd sydd ag adnoddau cyfyngedig, y dylem ond eu defnyddio ar lefel y gellir eu hailgyflenwi.

Cysylltiadau â deddfwriaeth allweddol arall yng Nghymru:

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru 'Mwy Nag Ailgylchu - strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti' yn cynnwys uchelgais i Gymru ailgylchu 70% o'i holl wastraff erbyn 2025, a bod yn 'ddiwastraff' erbyn 2050. Mae angen i gyrff cyhoeddus fonitro ac adrodd ar eu gweithredoedd a'u canlyniadau.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus 'gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'. Bydd lleihau gwastraff yn golygu lleihau llygredd pridd, dŵr ac aer.

Atodiad 1

Mae'r adnoddau sy'n cael eu cynhyrchu gan yr Hwb yn ystyried rhychwant y pynciau sy'n cael eu cwmpasu gan y nodau llesiant, ac maent yn cyfrannu hefyd at ddeddfwriaeth arall yng Nghymru.

Maent hefyd yn cefnogi camau gweithredu cadarnhaol ar draws y pum lefel o newid cynaliadwy (gwlad, system, sefydliad, tîm ac unigolyn) ac maent wedi'u rhestru isod i ddangos pa rai fyddai'n fwyaf defnyddiol eu darllen ar gyfer pob categori.

Lefel y newid cynaliadwy: GWLAD

Progressing the Sustainable Development Goals through Health in All Policies: Case studies from around the world

Gweithredu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy:
Gwersi o Adolygiad Llenyddiaeth ar Weithredu'r Pum Ffordd o Weithio

Lefel y newid cynaliadwy: SYSTEM

Gweithredu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy:
Gwersi o Adolygiad Llenyddiaeth ar Weithredu'r Pum Ffordd o Weithio

Lefel y newid cynaliadwy: SEFYDLIAD

E-friff chwarterol Cyfleoedd Gwyrdd i hybu adferiad gwyrdd yn dilyn y pandemig COVID-19

Gweithredu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: Gwersi o Adolygiad Llenyddiaeth ar Weithredu'r Pum Ffordd o Weithio

Newid Cyfeiriad i Sicrhau Planed Gynaliadwy: Gweithredu Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig: Pecyn cymorth ar gyfer sefydliadau byd-eang

Lefel y newid cynaliadwy: TÎM

Gwelliannau Cynaliadwy i Dimau: Canllaw Sut i

Gwelliannau Cynaliadwy i Dimau: Gweithdy Amgylchedd Iach

Cyfes 'Ni yw'r Newid':

- Ni yw'r Newid – Camau Cynaliadwy tuag at nodau llesiant Cymru
- Ni yw'r Newid – Helpu Natur i Ffynnu
- Ni yw'r Newid – Treftadaeth Iach
- Ni yw'r Newid – Creu Gweithleoedd Cynaliadwy
- Ni yw'r Newid – Gweithio Gartref a Gweithio'n Ystwyth mewn modd Cynaliadwy
- Ni yw'r Newid – Mesurau i Leihau ein Gwastraff
- Ni yw'r Newid – Cynaliadwyedd ar yr Agenda
- Ni yw'r Newid – Cerddwn Ymlaen
- Ni yw'r Newid – Her Nodau Llesiant

Lefel y newid cynaliadwy: UNIGOLYN

Cyfes 'Ni yw'r Newid' (gweler TÎM uchod)